# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Restore Dental Group – Practis Deintyddol Heol yr Eglwys Newydd / Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 29 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-364-9



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

Ansawdd profiad y claf ........ 9

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 15

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 22

4. Beth nesaf? ........ 25

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 26

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 27

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 28

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 29

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Restore Dental Group – Practis Deintyddol Heol yr Eglwys Newydd yn nau adeilad y practis yn 215 Heol yr Eglwys Newydd a 354 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 3NH, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 28 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu cynorthwyol AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Restore Dental Group – Practis Deintyddol Heol yr Eglwys Newydd yn darparu gofal diogel i'w gleifion. Canfuom amgylchedd dymunol a thîm cyfeillgar.

Fodd bynnag, rydym wedi dangos bod angen nifer o welliannau, gan i ni ganfod nad yw'r practis yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal mewn sawl maes. Mae angen rhoi sylw i'r materion hyn er mwyn i ofal a thriniaeth fod yn effeithiol ac wedi eu rheoli'n dda.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn lân a thaclus, ac wedi'u trefnu'n dda.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid adolygu a diweddaru polisi cwynion y GIG a'r polisi preifat er mwyn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau a rheoliadau perthnasol.
- Mae angen tystysgrif pum mlynedd ar gyfer gosod gwifrau trydan yn y ddau safle.
- Dylid adolygu'r asesiad risg tân er mwyn rhoi sylw i'r problemau a nodwyd.
- Mae angen hyfforddiant dadheintio ar gyfer staff perthnasol a dylid trefnu hyfforddiant radioleg ar lefel briodol ar gyfer nyrsys deintyddol.

- Mae angen adolygu'r rhestrau gwirio meddyginiaeth, gan gynnwys offer dadebru; nodi swyddogaethau ac amlder gwiriadau; ac adolygu'r polisi dadebru ar gyfer y ddau safle.
- Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o leoliad y switshis ynysu er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu gwarchod rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydr-X.
- Rhaid i ddeintyddion sicrhau bod canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion cleifion yn cael sylw.
- Rhaid cynnig triniaeth gynhwysfawr i gleifion sy'n derbyn gofal dan y GIG, oni bai nad oes angen clinigol dros wneud hynny.
- Mae angen edrych eto ar reolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn ac mae angen eu cryfhau. Awgrymir y dylai'r prif ddeintydd oruchwylio'r gwaith hwn.
- Mae angen adolygu a diweddaru gwiriadau, polisïau a hyfforddiant diogelu.
- Rhaid i'r deintyddion yn y practis gynnal archwiliad o gofnodion clinigol.

Gan fod nifer o welliannau'n cael eu nodi yn yr adroddiad hwn, cyfeiriwch at Atodiad C am fanylion pellach.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae gan Restore Dental Group dri phractis deintyddol ar draws ardal Caerdydd.

Mae Restore Dental Group – Practis Deintyddol Heol yr Eglwys Newydd yn un o'r practisau hyn ac mae wedi'i leoli mewn dau adeilad sydd ar draws y ffordd i'w gilydd ac sy'n darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. At ddibenion yr arolygiad a'r adroddiad hwn, arolygwyd y practis hwn sydd ar ddau safle fel practis unigol. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys wyth deintydd, un hylenydd, un therapydd, saith nyrs ddeintyddol, chwe nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un rheolwr practis, ac un rheolwr practis arall sy'n gweithio ar draws practisau Restore Dental Group. Mae'r nyrsys deintyddol hefyd yn cyflawni dyletswyddau derbynnydd.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol NHS and private.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod Restore Dental Group – Heol yr Eglwys Newydd yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da a'i fod yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella.

Mae angen sicrhau bod mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion a rhaid arddangos y rhestr brisiau ar gyfer gofal deintyddol preifat mewn man amlwg.

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg.

Rhaid i'r practis adolygu ei weithdrefn cwynion, ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

Rhaid i'r practis ddatblygu system i geisio barn cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut allai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, ac ymysg rhai o'r ymatebion roedd:

*“Mae eu gwasanaeth yn ardderchog yn fy marn i. Rwy'n credu bod y safon y gorau y gallai neu y dylai fod.”*

*“Mae'r staff a'r deintyddion yn hollol wych ac ni fyddwn byth yn ystyried mynd i unrhyw le arall.”*

*“Rwy’n fodlon iawn ar y practis ar y cyfan.*”

*“Byddai toiled ar y llawr daear yn dda.”*

*“Yr unig beth fyddwn yn ei ddweud yw y gall mynediad i fyny'r grisiau fod yn anodd, er fy mod yn gwybod bod staff yn helpu henoed a phobl anabl os oes angen.”*

## Cadw’n iach

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae angen sicrhau bod mwy o wybodaeth hybu iechyd deintyddol pwrpasol ar gael i gleifion yn y mannau aros, gan i ni ganfod bod diffyg deunyddiau o'r fath ar gael i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn y mannau aros.

## Gofal ag urddas

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis a'u bod wedi cael croeso gan dîm y practis. Gwelsom fod agwedd y staff tuag at gleifion yn gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dim ond ambell i glaf a gwblhaodd holiadur a ddywedodd nad oedd yn deall sut roedd cost ei driniaeth yn cael ei chyfrifo. Nid oedd yn glir pa drefniadau argyfwng oedd ar waith ar gyfer cleifion preifat (Denplan). Cynghorwn y prif ddeintydd i ystyried yr angen hwn a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i gleifion preifat.

Gwelsom fod gwybodaeth am brisiau triniaeth y GIG ar gael yn y man aros, er mwyn i gleifion gael eu hysbysu am gostau. Fodd bynnag, nid oedd rhestr brisiau yn cael ei harddangos mewn man amlwg ar gyfer cleifion preifat pan wnaethom gyrraedd y practis. Cafodd un ei rhoi ar waith yn ystod yr arolygiad a rhaid iddi barhau i gael ei harddangos er gwybodaeth i gleifion.

Dylai'r practis wella ei wybodaeth ddwyieithog gan nad oedd unrhyw dystiolaeth bod gwybodaeth allweddol ar gael yn Gymraeg, e.e. gweithdrefnau cwynion. Gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n ymarfer yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid dangos y rhestr brisiau ar gyfer gofal deintyddol preifat mewn man amlwg.

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd nifer fach o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a dywedodd y cleifion hyn wrthym nad oeddent byth yn gallu siarad yn Gymraeg â staff yn y practis, neu mai dim ond weithiau roeddent yn gallu gwneud hynny. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniant ffurfiol ar waith i gael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar y pryd. Rhaid cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i gleifion y gallent fod eu hangen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniant ffurfiol ar waith i gael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar y pryd. Rhaid cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i gleifion y gallent fod eu hangen.

## Gofal amserol

Roedd y practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt. Gwelsom fod manylion y rhif cyswllt mewn argyfwng i gleifion y GIG yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys (cymaint ag yr oeddent yn dymuno) mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a chostau cysylltiedig.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Nid oes mynediad i’r deintyddfeydd yn 215 na 354 Heol yr Eglwys Newydd i gleifion ag anawsterau symudedd neu rai sydd angen cadair olwyn. Dywedodd staff eu bod yn gallu atgyfeirio cleifion at eu practis ym Mhont-hir, lle ceir mynediad i gyfleusterau ar y llawr daear. Mae toiledau deuryw i gleifion a chyfleusterau toiled i staff ar gael ar lawr cyntaf y naill adeilad a'r llall.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd tua hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gwyno ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Canfuom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn cwynion yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella').[1] Roedd manylion ynghylch y weithdrefn cwynion ar gael ar wal yr ystafell aros, ond roedd angen manylion pellach gan nad oeddent yn cynnwys unrhyw amserlenni, manylion cyswllt y bwrdd iechyd na manylion cyswllt yr ombwdsmon.

Nid oedd gweithdrefn cwynion ar gyfer gofal deintyddol preifat ar gael fel sy'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[2] Rhaid i'r practis adolygu gweithdrefn cwynion y GIG a datblygu gweithdrefn cwynion ar gyfer cleifion preifat a sicrhau bod y rhain yn cael eu harddangos mewn man amlwg i gleifion gael mynediad atynt yn y mannau aros. Bydd hyn yn golygu y gall cleifion ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd os oes angen.

Ychydig o gwynion a oedd wedi cael eu derbyn gan gleifion yn ystod y blynyddoedd diweddar ac roedd ffeil cwynion ar waith. Fodd bynnag, er bod fformat da ar waith ar gyfer cwynion, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cael ei ddefnyddio ac felly roedd yn anodd gweld a oedd y practis wedi ymateb i bob cwyn yn unol â'r polisïau cwynion. Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â chwynion a chadw cofnodion ohonynt.

Gwnaethom hysbysu'r practis y dylai'r unigolyn penodol sy'n ymdrin â chwynion dderbyn hyfforddiant i'w gefnogi i gyflawni'r swyddogaeth hon. Awgrymwyd hefyd y dylai'r practis roi cofnod cwynion ar waith i gofnodi cwynion anffurfiol yn ganolog, er mwyn canfod unrhyw themâu cyffredin.

Dywedodd bron i un rhan o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn ymwybodol bod y practis wedi ceisio canfod eu barn am y practis deintyddol, trwy holiaduron cleifion er enghraifft. Gwnaethom drafod y dull roedd y practis yn ei ddefnyddio i geisio adborth gan gleifion. Dywedodd staff wrthym fod angen iddynt ddatblygu system ffurfiol ar gyfer ceisio barn cleifion. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ddatblygu arolwg cleifion er mwyn i gleifion roi eu

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

hadborth. Gwnaethom hefyd awgrymu y dylai'r practis arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbynnir yn y man aros i ddangos i gleifion ei fod yn gweithredu yn dilyn adborth a bod adborth yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu gweithdrefn cwynion y GIG a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella').

Rhaid i'r practis ddatblygu gweithdrefn cwynion ar gyfer cleifion preifat yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008. Mae'n rhaid arddangos y ddwy weithdrefn hyn mewn man amlwg yn y mannau aros er mwyn i gleifion gael mynediad atynt.

Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â chwynion a chadw cofnodion ohonynt.

Rhaid i'r practis ddatblygu system i geisio barn cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel i gleifion. Fodd bynnag, roedd angen nifer o welliannau mewn sawl maes i sicrhau bod gofal a thriniaeth yn gwbl effeithiol ac yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal a chanllawiau perthnasol eraill.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Fodd bynnag, mae angen tystysgrif pum mlynedd ar gyfer gosod gwifrau trydan ar gyfer y ddau safle.

Mae toiledau deuryw at ddefnydd cleifion a thoiledau ar wahân i staff ar gael ar lawr cyntaf y naill adeilad a'r llall. Roedd arwyddion clir at y cyfleusterau hyn ac roeddent i'w gweld yn lân ac roedd bin gwastraff glanweithiol ar waith.

Roedd asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg. Roedd sylweddau COSHH yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd diffoddwyr tân ar gael a oedd wedi'u gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf, roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Fodd bynnag, canfuom nad oedd golau uwchben yr allanfa dân i fyny'r grisiau yn 215 Heol yr Eglwys Newydd a bod annibendod yn rhwystro ardal yr allanfa yn rhannol. Gwnaethom drafod hefyd y dylid ystyried arwyddion tân yn o leiaf un ardal. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

Mae angen cynnal adolygiad mewn perthynas â mynediad diogel i'r ystafell stoc a'r ystafell ddadheintio a dylai'r adolygiad gynnwys arwyddion 'staff yn unig'.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen tystysgrif pum mlynedd ar gyfer gosod gwifrau trydan yn y ddau adeilad ac mae angen anfon copi o'r rhain at AGIC.

Rhaid adolygu'r asesiad risg tân er mwyn rhoi sylw i'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad.

Mae angen cynnal adolygiad mewn perthynas â mynediad diogel i'r ystafell stoc a'r ystafell ddadheintio a dylai'r adolygiad gynnwys arwyddion 'staff yn unig'.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn. Ar ddiwrnod yr arolygiad, canfuom fod y practis wedi ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Cyfarpar diogelu personol megis menig untro, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio i lanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd offer yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio

Roedd polisi dadheintio ar waith. Canfuom fod statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer aelodau staff yn gyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Fodd bynnag, dylai pob aelod perthnasol o staff gael hyfforddiant dadheintio bob pum mlynedd; mae angen i'r practis adolygu statws yr hyfforddiant hwn gan nad oedd digon o dystiolaeth ar gael. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen hyfforddiant dadheintio ar bob aelod perthnasol o staff.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel. O ran 215 Heol yr Eglwys Newydd, gwnaethom awgrymu y dylid storio cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng mewn lleoliad lle maent ar gael yn syth mewn achos o argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis a chawsant eu hadleoli yn yr ystafell driniaeth o ganlyniad i hyn.

Nid oeddem yn sicr bod system effeithiol ar waith i wirio'r offer dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau eu bod yn barod i gael eu defnyddio. Mae hyn oherwydd i ni ganfod wrth wirio bod rhai problemau gyda dyddiadau offer dadebru a gyda diffyg un set o feddyginiaeth a ddefnyddir mewn argyfwng yn ystafell driniaeth 215 Heol yr Eglwys Newydd. Cafodd y problemau hyn eu datrys ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad. Gweler Atodiad A.

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid adolygu'r polisi dadebru ar gyfer y ddau adeilad, er mwyn dangos lleoliad meddyginiaeth ac offer dadebru a nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau rhag ofn y byddai achos o argyfwng. Roedd swyddogion cymorth cyntaf penodol ar gael yn y practis a oedd wedi cael hyfforddiant. Mae angen adolygu ac archwilio'r broses rheoli stoc ar gyfer deunyddiau ac anesthetigion deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid adolygu'r rhestrau gwirio meddyginiaeth, gan gynnwys offer dadebru, nodi swyddogaethau, a nodi pa mor aml y cynhelir gwiriadau.

Dylid adolygu'r polisi dadebru ar gyfer y ddau adeilad, er mwyn dangos lleoliad meddyginiaeth ac offer dadebru a nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau rhag ofn y byddai achos o argyfwng.

Mae angen adolygu ac archwilio'r broses rheoli stoc ar gyfer deunyddiau ac anesthetigion deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Mae angen i'r practis gymryd camau pellach i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod angen adolygu neu ddatblygu polisïau diogelu ac roedd angen adolygu a diweddaru'r hyfforddiant diogelu i aelodau perthnasol o staff.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn wirioneddol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y polisi diogelu plant yn cynnwys rhifau cyswllt yr adran amddiffyn plant leol ac mae angen datblygu polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Mae angen i bob aelod perthnasol o staff gael hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi fod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio

a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr amgylcheddau wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Fodd bynnag, rhaid i'r practis adolygu lleoliad y switshis ynysu i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu gwarchod rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydr-X.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[4] Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod rhai nyrsys deintyddol wedi cael lefel briodol o hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd. Rhaid i'r prif ddeintydd sicrhau bod hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei drefnu ar gyfer nyrsys deintyddol ble y bo'n ofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu lleoliad y switshis ynysu i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu gwarchod rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydr-X.

Rhaid i hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd fod yn gyfredol ar lefel sy'n briodol ar gyfer nyrsys deintyddol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau ac offer radiograffeg.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Dylai'r prif ddeintydd adolygu'r prosesau adolygu gan gymheiriaid yn fewnol a/neu dylai ystyried opsiynau i sefydlu cydberthynas yn lleol â phractisau eraill yn yr ardal i'r diben hwn. Byddai ymgysylltiad pellach ag ardaloedd sy'n rhan o archwiliadau CAPRO Deoniaeth Cymru[5] yn fuddiol, e.e. archwiliad cadw cofnodion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau rheolaidd, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion saith o'r deintyddion yn y practis, er mwyn asesu ansawdd y gwaith cadw cofnodion. Er bod prosesau cadw cofnodion un deintydd yn dda iawn, roedd angen gwella'r maes hwn yn gyffredinol. Roedd gwaith cadw cofnodion yn amrywio ac roedd y cofnodion yn cynnwys enghreifftiau o arfer da a nodiadau heb fawr ddim manylion. Canfuwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Rhaid adolygu polisi hanesion meddygol cleifion, rhaid i'r claf eu llofnodi'n gyson, a rhaid cael system ar waith i ddangos bod y deintyddion wedi gwirio hanesion meddygol ar bob cam o driniaeth.
- Mae angen cynhyrchu cynlluniau triniaeth mwy cyson ar gyfer triniaethau Band 2 a 3[6] ac mae angen eu llofnodi.

[5] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

[6] http://www.nhs.uk/chq/Pages/nhs-dental-band-charges.aspx

- Mae angen ystyried amlder radiograffau (bitewing) yn unol â chanllawiau a rhaid i radiograffau gael eu cyfiawnhau a rhaid cofnodi adroddiadau amdanynt. Rhaid cofnodi cynlluniau ac opsiynau triniaeth yn gyson.

Nid oedd y prif ddeintydd ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Felly gwnaethom drafod ein canfyddiadau yn fanwl gydag un o'r deintyddion a oedd ar gael. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis roi rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar waith ar gyfer cofnodion cleifion, er mwyn gwella ansawdd gwaith cadw cofnodion ymhellach, a chytunodd y practis i wneud hyn. O ystyried y meysydd i'w gwella a nodir mewn perthynas â'r prosesau cadw cofnodion clinigol, rhaid i'r deintyddion yn y practis roi blaenoriaeth i gynnal archwiliad o gofnodion clinigol.

Canfuom hefyd yng nghofnodion tri o'r deintyddion nad oedd hi bob amser yn glir a oedd y deintyddion wedi hysbysu a helpu cleifion i ddeall yr holl opsiynau pan oedd angen triniaeth arnynt. Mae hyn oherwydd i ni ganfod bod rhai cleifion y GIG yn gweld yr hylenydd yn breifat er bod eu nodiadau'n dangos bod yr ymweliadau'n glinigol angenrheidiol ac felly byddai'r gwasanaeth wedi bod ar gael dan y GIG. Nid oedd unrhyw gyfiawnhad dros hyn wedi cael ei nodi. Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Rhaid i'r deintyddion yn y practis gynnal archwiliad o gofnodion clinigol.

Rhaid cynnig triniaeth gynhwysfawr i gleifion dan ofal y GIG, oni bai nad yw'n glinigol angenrheidiol, ac yn yr achos hwnnw rhaid cyfiawnhau hyn yng nghofnodion y cleifion. Rhaid i'r prif ddeintydd roi amlinelliad manwl i AGIC o'r ymateb cadarn a ddarparwyd i roi sylw i'r maes hwn.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Ar y cyfan, canfuom fod angen dybryd i adolygu'r prosesau rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn.

Mae hyn oherwydd i ni ganfod bod angen edrych eto ar y gwaith o reoli ac arwain y practis, a'i gryfhau. Mae angen adolygu a diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau yn dilyn cyfnod o newid o ran staff. Dangosir hyn gan nifer y gwelliannau a nodir yn yr adroddiad hwn. Awgrymir y dylai'r prif ddeintydd oruchwylio'r gwaith hwn.

Mae angen cynnal arfarniadau staff yn flynyddol.

Mae angen gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pum deintydd yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd yw perchennog Restore Dental Group – Practis Heol yr Eglwys Newydd ac mae'n cael cymorth gan saith deintydd arall a'r tîm practis ehangach. Mae rheolwr practis newydd wedi cael ei gyflogi i gynorthwyo â'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Mae rheolwr practis sy'n gweithio ar draws practisau Restore Dental Group hefyd sy'n gallu rhoi cymorth. Fodd bynnag, mae newid swyddogaethau'n ddiweddar wedi amharu rhywfaint ar swyddogaeth y rheolwr practis yn y practis hwn. Mae hyn wedi golygu bod angen edrych eto ar systemau effeithiol i gefnogi gwaith rheoli ac arwain cyffredinol y practis ac mae angen ei gryfhau. Dangosir hyn gan nifer y problemau a nodir yn yr adroddiad hwn. Awgrymir y dylai'r prif ddeintydd oruchwylio'r gwaith hwn.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Fodd bynnag, canfuom y gellid

diffinio ac esbonio swyddogaethau a chyfrifoldebau rhai aelodau o staff yn well, er enghraifft monitro gwiriadau meddyginiaeth, prosesau rheoli stoc, ac anghenion o ran hyfforddiant diweddaru.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd practis a gynhaliwyd, a'r bwriad oedd cynnal y rhain bob dau fis. Roedd y cofnodion a welsom o'r rhain yn fyr a rhoddwyd cyngor i reolwr y practis ynglŷn â'r fformat, a ddylai gynnwys pwyntiau gweithredu a nodi pwy sy'n gyfrifol amdanynt ble y bo'n berthnasol. Bydd hyn yn galluogi staff i ddysgu o'r camau gweithredu a nodwyd a datblygu yn eu sgil, a bydd yn galluogi'r practis i nodi camau gweithredu'n well yn y dyfodol.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd angen adolygu a diweddaru rhai o'r rhain fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen edrych eto ar reolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn ac mae angen eu cryfhau. Awgrymir y dylai'r prif ddeintydd oruchwylio'r gwaith hwn.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant mewn amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn fawr iawn. Fodd bynnag, roedd bylchau o ran rhai meysydd o hyfforddiant fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Roedd gan y practis gymysgedd o staff newydd a staff sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff yn mynd i gael eu cynnal ym mis Gorffennaf 2017 ac y bydd cynlluniau datblygiad personol yn cael eu nodi o ganlyniad i'r arfarniadau hynny. Mae angen cynnal arfarniadau staff yn flynyddol.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt. Roedd

cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn man amlwg, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer pum deintydd yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Roedd tystiolaeth bod rhai archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal fel archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fodd bynnag, dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau rheolaidd, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cynnal arfarniadau staff yn flynyddol.

Mae angen gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pum deintydd yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Dylid darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Mae unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi ei gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau proffesiynol a chanllawiau perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

## Gwasanaeth: Restore Dental Group – Practis Deintyddol Heol yr Eglwys Newydd

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nid oeddem yn sicr bod system effeithiol ar waith i wirio'r offer dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau eu bod yn barod i gael eu defnyddio.<br><br>Mae hyn oherwydd i ni ganfod wrth wirio bod rhai problemau gyda dyddiadau offer dadebru a diffyg un set o feddyginiaeth a ddefnyddir mewn argyfwng yn ystafell driniaeth 215 Heol yr Eglwys Newydd. | Gallai ymateb i achosion o ddadebru fod mewn perygl neu gallai'r ymateb fod yn hwyr os nad yw offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn barod i'w defnyddio mewn achos o argyfwng meddygol. | Trafododd yr adolygydd cymheiriaid y mater hwn â rheolwr y practis. Roedd cetyn ceg offer dadebru yn hen ac nid oedd pecyn ar gyfer un set o feddyginiaeth a ddefnyddir mewn argyfwng yn cynnwys y meddyginiaethau perthnasol. | Cafodd y problemau hyn eu datrys ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad. Darparwyd cetyn ceg newydd ar gyfer yr offer dadebru gan reolwr y practis a daethpwyd o hyd i'r meddyginiaethau gofynnol a chawsant eu rhoi yn y pecyn yn barod i'w defnyddio. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Restore Dental Group – Practis Deintyddol Heol yr Eglwys Newydd

## Dyddiad yr arolygiad: 28 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dim materion sicrwydd dybryd | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Restore Dental Group – Practis Deintyddol Heol yr Eglwys Newydd

## Dyddiad yr arolygiad: 28 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion yn y mannau aros. | Safonau Iechyd a Gofal 4.2 a 5.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (a) | Cysylltwyd â'r bwrdd iechyd lleol a chafwyd mwy o ddeunyddiau hyrwyddo iechyd – byddwn yn eu harddangos ar ôl iddynt gyrraedd.<br>Archebwyd stondin ar gyfer taflenni ac mae'n cael ei harddangos yn y ddau fan aros. | Hannah Snape | 15 Medi 2017 |
| Rhaid arddangos y rhestr brisiau ar gyfer cleifion | Safon Iechyd a | Roedd y rhestr brisiau'n cael ei harddangos ym mhob man aros ar | Laura Evans | 28 Mehefin |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| preifat mewn man amlwg. | Gofal 4.2<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (a) a (b)<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4.1 | ddiwrnod yr arolygiad – mae'n dal i gael ei harddangos mewn man amlwg. | | 2017 |
| Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg.<br>Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniad ffurfiol ar waith i gael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar y pryd. Rhaid cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i gleifion y gallent fod eu hangen. | Safonau Iechyd a Gofal 4.1, 4.2 a 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (a) | Mae LanguageLine yn cael ei ddefnyddio'n awr.<br>Mae pob aelod o staff yn ymwybodol a rhoddwyd hyfforddiant – mae'r manylion a thaflen ieithoedd yn cael eu cadw ar ddesg y ddwy dderbynfa. | Hannah Snape | 8 Awst 2017 |
| Rhaid i'r practis adolygu gweithdrefn cwynion y | Safon Iechyd a | Adolygwyd a diweddarwyd polisi | Laura Evans | 8 Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| GIG a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella'). Rhaid i'r practis ddatblygu gweithdrefn cwynion ar gyfer cleifion preifat yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008. Rhaid dangos y ddwy weithdrefn hyn mewn man amlwg er mwyn i gleifion allu eu gweld yn y mannau aros. | Gofal 6.3 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 15 (4) | cwynion y GIG a chleifion preifat i sicrhau bod y ddau'n cydymffurfio a bod manylion cyswllt ar gael yn rhwydd. Mae pob aelod o staff wedi darllen y polisïau cwynion wedi'u diweddaru ac maent yn ymwybodol ohonynt. Maent yn cael eu harddangos yn y ddau fan aros. Rydym yn y broses o uwchlwytho'r rhain ar ein gwefan. | Laura Evans | 16 Hydref 2017 |
| Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â chwynion a chadw cofnodion ohonynt. | Safon Iechyd a Gofal 6.3 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 15 (3) | Cwrs ymdrin â chwynion. Adolygwyd a diweddarwyd y polisïau cwynion. Adolygwyd a diweddarwyd y cofnod cwynion. Rhoddwyd hyfforddiant i'r holl staff. | Hannah Snape Laura Evans Pob rheolwr clinigol | 13 Medi 2017 6 Awst 2017 7 Awst 2017 8 Awst 2017 |
| Rhaid i'r practis ddatblygu system i geisio barn cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. | Safon Iechyd a Gofal 6.3 Rheoliadau | Rydym wedi llunio holiadur boddhad cleifion. Mae'r rhain yn y mannau aros i | Hannah Snape | 18 Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (2)<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1 | gleifion eu cwblhau er mwyn i ni adeiladu wedyn ar yr adborth a dderbynnir.<br>Mae gennym ffurflenni canmoliaeth ac adborth hefyd i gleifion eu cwblhau a'u gosod yn y blwch adborth sydd ar ddesg y dderbynfa yn y ddau safle. | Laura Evans | Eisoes ar waith |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen tystysgrif pum mlynedd ar gyfer gosod gwifrau trydan yn y ddau adeilad ac mae angen anfon copi ohonynt at AGIC. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | Mae tystysgrif ar gyfer adeilad 215 Heol yr Eglwys Newydd sy'n ddilys tan 23 Mehefin 2018.<br>Rydym wedi trefnu i drydanwr gwblhau gwaith yn 354 Heol yr Eglwys Newydd ar 26 Awst 2017. | Laura Evans | Wedi'i gyflawni<br>26 Awst 2017 |
| Rhaid adolygu'r asesiad risg tân er mwyn rhoi sylw i'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth | Mae'r asesiad risg tân wedi cael ei adolygu ac nid oes unrhyw rwystrau gan ein landlord yn y cyntedd lle mae ein hallanfa dân. Mae pob bwlb golau wedi cael ei newid ac mae pob un yn | Hannah Snape | 17 Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | gweithio'n iawn. | | |
| Mae angen cynnal adolygiad mewn perthynas â mynediad diogel i'r ystafell stoc a'r ystafell ddadheintio a dylai'r adolygiad gynnwys arwyddion 'staff yn unig'. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | Rydym wedi trefnu i adeiladwr osod systemau mynediad bysellbad ar bob drws gofynnol, ynghyd ag arwyddion 'staff yn unig'. | Hannah Snape | 23 Hydref 2017 |
| Mae angen hyfforddiant dadheintio ar bob aelod perthnasol o staff. | Safon Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Rydym yn y broses o gasglu tystysgrifau dadheintio pob aelod o staff a bydd copïau'n cael eu cadw yn y ddau adeilad. | Hannah Snape | 30 Awst 2017 |
| Mae angen adolygu'r rhestrau gwirio meddyginiaeth, gan gynnwys offer dadebru, nodi swyddogaethau, a nodi pa mor aml y | Safon Iechyd a Gofal 2.6<br>Rheoliadau | Mae'r holl offer llwybr anadlu wedi cael eu newid yn awr ac maent o fewn eu dyddiad defnyddio ac mae templed newydd ar gyfer rhestrau gwirio wedi | Hannah Snape | 14 Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cynhelir gwiriadau. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | cael ei ddylunio ar gyfer meddyginiaeth ac offer. | | |
| Dylid adolygu'r polisi dadebru yn y ddau adeilad, er mwyn dangos lleoliad meddyginiaeth ac offer dadebru a nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn achos o argyfwng. | Safon Iechyd a Gofal 5.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6, 6.6.6 | Rydym yn y broses o ddrafftio polisi dadebru'r practis ar gyfer y ddau safle.<br>Yna caiff ei roi ar waith ar draws ein safleoedd eraill. | Laura Evans | 1 Hydref 2017 |
| Mae angen adolygu ac archwilio'r broses rheoli stoc ar gyfer deunyddiau ac anesthetigion deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth. | Safon Iechyd a Gofal 2.6<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Rydym bellach wedi gwneud yr holl staff nyrsio'n ymwybodol na ddylid cadw gormod o stoc yn yr ystafelloedd triniaeth ar ddiwedd pob sesiwn. | Hannah Snape | 1 Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 2008<br>14 (1) (b) | Mae'r uwch nyrs ddeintyddol yn cynnal gwiriadau dyddiol trwyadl ar anesthetigion a deunyddiau deintyddol. Yn ogystal, rydym wedi gwneud yr holl staff yn ymwybodol y dylid cadw'r holl anesthetigion yn y pecynnau wedi'u sterileiddio. | | 29 Mehefin 2017 |
| Mae'n ofynnol bod y polisi diogelu plant yn cynnwys rhifau cyswllt yr adran amddiffyn plant leol ac mae angen datblygu polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. | Safon Iechyd a Gofal 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Rydym wedi cysylltu â'r awdurdodau lleol ac rydym yn diweddaru ein polisi diogelu a'n rhifau cyswllt.<br><br>Adolygu'r ddau bolisi. | Hannah Snape<br><br>Laura Evans | 14 Awst 2017<br><br>25 Medi 2017 |
| Mae angen i bob aelod perthnasol o staff gael hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | Safon Iechyd a Gofal 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Rydym yn y broses o gasglu tystysgrifau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed pob aelod o staff a bydd copïau'n cael eu cadw yn y ddau adeilad. | Hannah Snape | 28 Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14 (1) (b) | | | |
| Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o leoliad y switshis ynysu er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydr-X. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Rydym wedi trefnu i drydanwr ddod i adleoli'r switshis ynysu ar gyfer y peiriant OPT ac uned pelydr-X ceg fewnol Ystafell Driniaeth 1. | Laura Evans | 26 Awst 2017 |
| Rhaid i hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd fod yn gyfredol ar lefel sy'n briodol ar gyfer nyrsys deintyddol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Rydym yn y broses o gasglu tystysgrifau radiograffeg pob aelod o staff a bydd copïau’n cael eu cadw yn y ddau adeilad.<br>Mae gennym gopi o dystysgrifau pob | Hannah Snape | 30 Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 7.3.1<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | aelod o staff sydd wedi cymhwyso o fewn y pum mlynedd diwethaf. | | |
| Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau rheolaidd, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (2) | Cwblhawyd archwiliad CAPRO gennym yn ddiweddar ar 'ganllaw NICE ar archwiliad asesu risg radiograffeg'.<br><br>Rydym yn dechrau archwiliad cadw cofnodion ym mis Medi. | Laura Evans<br><br>Raid Ali | Mehefin 2017<br><br>15 Medi 2017 |
| Rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau addas i sicrhau bod | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth | Rydym wedi trefnu archwiliad cadw cofnodion o fewn Restore Dental Group.<br><br>Yn y cyfarfod ar 15 Medi 2017, byddwn | Raid Ali | 15 Medi 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Rhaid i'r deintyddion yn y practis gynnal archwiliad o gofnodion clinigol. | Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b) | yn ail-bwysleisio pwysigrwydd cwblhau FP17DC ar gyfer triniaethau Band 2 a Band 3.<br><br>Yn dilyn yr archwiliad, gallwn sicrhau bod pob newid angenrheidiol yn cael ei roi ar waith. | | |
| Rhaid cynnig triniaeth gynhwysfawr i gleifion dan ofal y GIG, oni bai nad yw'n glinigol angenrheidiol, ac yn yr achos hwnnw rhaid cyfiawnhau hyn yng nghofnodion y cleifion. Rhaid i'r prif ddeintydd roi amlinelliad manwl i AGIC o'r ymateb cadarn a ddarparwyd i roi sylw i'r maes hwn. | Safon Iechyd a Gofal 3.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (2) | Byddwn bob amser yn sicrhau bod pob claf yn cael cynnig triniaeth gynhwysfawr ar y GIG boed hynny gyda'r:<br><br>clinigydd<br><br>y therapydd deintyddol<br><br>Iechyd y geg y claf sy'n fwyaf pwysig i ni ac mae pob opsiwn triniaeth yn cael ei drafod â'r cleifion a rhoddir cyngor er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad.<br><br>Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth | Raid Ali | Cwblhawyd ac yn barhaus |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | hylenydd y geg preifat i gleifion sydd am ei gweld ar sail breifat. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen edrych eto ar reolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn ac mae angen eu cryfhau. Awgrymir y dylai'r prif ddeintydd oruchwylio'r gwaith hwn. | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (2) | Mae gennym reolwr llawn amser yn 354 a 215 Heol yr Eglwys Newydd bellach i oruchwylio'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd.<br>Mae rheolwr clinigol gweithredol y grŵp ar gael hefyd, sy'n rheoli ochr weithredol pob un o'r pum safle. | Hannah Snape<br>Laura Evans | 4 Mehefin 2017<br>1 Mehefin 2017 |
| Mae angen cynnal arfarniadau staff yn flynyddol. | Safon Iechyd a Gofal 7.1<br>Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1 | Mae pob arfarniad staff yn cael ei gwblhau.<br>Bydd yr adolygiadau perfformiad nesaf yn digwydd mewn pedwar mis.<br>Dylai pob rheolwr ddefnyddio system | Laura Evans<br>Laura Evans | 31 Awst 2017<br>30 Tachwedd 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gwmwl i fonitro a rhoi sylwadau am bob agwedd ar y cyflogai. | | |
| Mae angen gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pum deintydd yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Dylid darparu tystiolaeth o hyn i AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Rydym yn y broses o ddosbarthu ffurflenni'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i bob deintydd ym mhractis Heol yr Eglwys Newydd eu cwblhau er mwyn dangos dyddiad eu gwiriad ac yna dychwelyd copi at y rheolwyr. | Hannah Snape | 30 Tachwedd 2017 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Dr Raid Ali**

**Swydd:** **Prif ddeintydd**

**Dyddiad:** **24 Awst 2017**